



Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Tuag at Drawsnewid Cyfiawn yng Nghymru

Jack Price, Manon Roberts a Dan Bristow
Ionawr 2021



Ein Hamcan

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru'n helpu gwella'r modd y gwneir polisïau a gwasanaethau cyhoeddus drwy gynorthwyo gweinidogion ac arweinwyr gwasanaeth cyhoeddus i gael a defnyddio tystiolaeth annibynnol gadarn am beth sydd yn gweithio. Mae'r Ganolfan yn cydweithio gydag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gasglu a defnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael ac i nodi bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond yn cydweithio'n agos gyda llunwyr polisïau ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd ynghylch sut i ddelio â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi, a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n:

- Cynorthwyo Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi, canfod a defnyddio tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu sefydlu a gwella polisïau;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i ganfod, cynhyrchu, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth ynghylch beth sy'n gweithio wrth ymateb i heriau economaidd a chymdeithasol allweddol; ac yn
- Defnyddio'i waith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i gynyddu dealltwriaeth o'r modd y gellir defnyddio tystiolaeth i lunio a gwella polisïau a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at theorïau am lunio a gweithredu polisi.

Trwy gynlluniau secondio, lleoliadau PhD a'i rhaglen Brentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu adeiladu gallu ymysg ymchwilwyr i ymwneud ag ymchwil sy'n berthnasol i bolisïau, ac yn cael effaith arnynt.

Am wybodaeth bellach ewch i'n gwefan www.wcpp.org.uk

Cyllidwyr Craidd



Prifysgol Caerdydd. Sefydlwyd y brifysgol uchelgeisiol ac arloesol hon yn 1883 yn ein prifddinas fyrlymus. Mae'n benderfynol o adeiladu cysylltiadau rhyngwladol cryf tra'n dangos ei hymrwymiad i Gymru.



Economic and Social Research Council

Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC). Rhan o UK Research and Innovation, corff newydd sy'n cyfuno saith cyngor ymchwil y Deyrnas Unedig, Innovate UK a Research England i gael y gorau o gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau ar gyfer ffyniant ymchwil ac arloesedd.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru. Llywodraeth ddatganoledig Cymru sy'n gyfrifol am feysydd allweddol mewn bywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

Cynnwys

Crynodeb	4
Cyflwyniad	5
Beth yw Trawsnewid Cyfiawn?	6
Beth yw cyfiawnder?	6
Pa fath o drawsnewid?	8
Heriau a chyfleon yng nghyd-destun polisi Cymru	9
Deddfwriaeth, pwerau a chyfleon ar gyfer newid	9
Heriau ac ystyriaethau i ddatgarboneiddio yng Nghymru	13
Effaith pandemig y Coronafeirws	15
Crynodeb: Symud tuag at Drawsnewid Cyfiawn	16
Cyfeiriadau	17
Yr Awduron	18

Crynodeb

- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatgarboneiddio, a lliniaru effeithiau newid hinsawdd.
- Effeithiau economaidd-gymdeithasol fydd rhai o'r rhain. Mae fframwaith Trawsnewid Cyfiawn yn ceisio sicrhau bod datgarboneiddio'n digwydd mewn modd sy'n osgoi creu, neu waethygu, anghydraddoldebau, gan ddefnyddio'r posibilrwydd o drawsnewid i leihau neu ddileu'r anghydraddoldebau hyn.
- Ond nid pawb sy'n gytûn ar beth yw ystyr 'Trawsnewid Cyfiawn', a bydd angen ateb cwestiynau allweddol er mwyn ei weithredu.
- Er enghraifft, mae gwahanol ffyrdd o ddiffinio cyfiawnder, a bydd yr hyn a olygwn gyda 'chyfiawnder' yn effeithio ar y mathau o bolisïau y bydd llywodraethau'n eu dilyn, a sut y byddant yn effeithio ar bobl.
- Bydd sut y datgarboneiddiwn, a sut y deallwn broses datgarboneiddio, yn bwysig hefyd. Gallai strategaeth ddatgarboneiddio sy'n canolbwyntio ar leoliad fod yn wahanol iawn i ddatgarboneiddio fesul sector.
- Mae angen edrych ar hyn yng nghydedstun deddfwriaethol ac economaidd-gymdeithasol Cymru hefyd.
- Mae gan Gymru gefndir deddfwriaethol cryf, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a Deddf yr Amgylchedd 2016.
- Bydd Trawsnewid Cyfiawn yn galw am bwyslais cryfach ar drefniadau llywodraethu trawsbynciol, a llais i randdeiliaid wrth wneud penderfyniadau.
- Gallai canolbwyntio ar ymgysylltu â rhanddeiliaid, a chymysgedd o gyfarwyddyd 'o'r brig i lawr', ac ymgysylltu a gweithredu 'o'r gwaelod i fyny', helpu cefnogi effeithiolrwydd wrth lunio polisïau a gwneud penderfyniadau.
- Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod economi Cymru'n anodd i'w ddatgarboneiddio, gan ei fod yn dibynnu mwy ar amaethyddiaeth a diwydiant trwm na gweddill Prydain.
- Mae pandemig y Coronafeirws wedi amlygu anghydraddoldebau ystyfnig a oedd yn bodoli eisoes, ond mae wedi dangos hefyd y gall llywodraethau a chymdeithasau weithredu'n benderfynol i ymateb i fygythiadau enbyd.
- Gallai agwedd yr un mor benderfynol tuag at ddelio â newid hinsawdd, ac ymgysylltiad y gymdeithas gyfan, gynnal Trawsnewid Cyfiawn, a bydd ymdrechion i 'ailgodi'n gryfach' yn bwysig os am gyflawni ymrwymadau sero-net.

Cyflwyniad

Mae ymwybyddiaeth wedi cynyddu ymysg y cyhoedd a llunwyr polisïau am yr angen i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ers misoedd cynnar 2019. Yng Nghymru, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'argyfwng hinsawdd' yn Ebrill 2019 gan fynegi ymrwymiad o'r newydd i ddatgarboneiddio.

Mae goblygiadau economaidd a chymdeithasol eang i ddatgarboneiddio a symudiad at allyriadau sero-net. Byddai hynny'n wir am unrhyw ailstrwythuro ar y sylfaen economaidd. Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (CPCC) wedi dechrau archwilio sut y gellir deall y goblygiadau hyn, a'u lliniaru. Mae fframwaith 'Trawsnewid Cyfiawn' (TC) yn ymgais i ddeall y goblygiadau hyn ac i gynnwys mesurau sy'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol mewn proses ddatgarboneiddio.

Mae fframwaith TC yn canolbwyntio sylw ar y mathau o effaith y gall datgarboneiddio eu cael – er enghraifft, y posibilrwydd o golli swyddi mewn diwydiannau carbon uchel – ond mae hefyd yn cynnig ffordd o ddefnyddio datgarboneiddio i liniaru anghydraddoldebau a diffyg cyfleon sy'n bodoli ar hyn o bryd, a hybu cyfiawnder cymdeithasol (Price, 2019). O fabwysiadu'r fframwaith byddai llywodraethau a rhanddeiliaid eraill yn gallu ateb heriau presennol, tra'n cyrraedd targedau uchelgeisiol o ran yr hinsawdd. Mae'n cynnig ffordd i ddatgarboneiddio gael ei brif-ffrydio ar draws y llywodraeth.

Er bod diddordeb mawr mewn TC, prin yw'r dystiolaeth fanwl o'r hyn y gallai ei olygu. Mae dadbacio cysyniad TC yn golygu ystyried hefyd sut y gellid ei weithredu ar lawr gwlad, ac yn enwedig, sut y gall y mathau o ymrwymiad y mae TC yn gofyn amdanynt gael eu gwreiddio yn y gwaith o lywodraethu a llunio polisi. Bwriad gwaith CPCC yn y maes hwn yw darparu golwg gychwynnol ar y materion hyn, a rhoi syniad o sut y gallai'r gweithredu ddigwydd yng Nghymru. Rydym wedi ceisio casglu barn o blith sefydliadau ac arbenigwyr unigol sy'n gweithio yn y maes hwn drwy gyfarfodydd bwrdd crwn, a dulliau ymgysylltu eraill, yn ogystal â gwneud gwaith ymchwil tu ôl i ddesg.

Dechreuwyd y gwaith hwn cyn i bandemig y Coronafeirws daro, ac er inni ddal i ganolbwyntio ar y tymor canolig i hir, mae'n amhosib anwybyddu'r cyd-destun presennol. Fel y mae eraill wedi dadlau, gellir gweld profiad y Coronafeirws fel enghraifft o 'drawsnewid anghyfiawn' wedi'i achosi gan greisis nas rhagwelwyd. A bydd sut y mae llywodraethau'n dewis cyfeirio'r adferiad economaidd yn 2021, a thu hwnt, yn pennu'r paramedrau ar gyfer ymdrechion datgarboneiddio yn y dyfodol.

Ceisio'r adroddiad hwn ddadansoddi beth yw ystyr Trawsnewid Cyfiawn, a sut y gellir defnyddio datgarboneiddio i hyrwyddo economi mwy cynhwysol a thecach. Trafodwn

y berthynas rhwng TC a fframwaith polisi presennol Cymru, a chyfleon i gyfuno'r ddau, yn ogystal â'r heriau sy'n codi oherwydd cyfyngiadau'r cytundeb datganoli, a'r anawsterau o ddelio â datgarboneiddio a chyfiawnder cymdeithasol ill dau. Ystyriwn hefyd effaith pandemig y Coronafeirws, a'r gwersi a allai godi o hynny i TC. Gan gydnabod mai maes polisi sy'n esblygu yw hwn, i gloi rhoddwn ychydig o awgrymiadau cychwynnol ynghylch sut y gellid edrych ar Drawsnewid Cyfiawn yng nghyd-destun Cymru.

Beth yw Trawsnewid Cyfiawn?

Mae ymwybyddiaeth gynyddol y gallai'r newidiadau economaidd sy'n debyg o ddeillio o ddatgarboneiddio arwain at ganlyniadau anghyfiawn, a bod angen sicrhau bod TC wedi ei gynnwys yn (er enghraifft) adroddiadau'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (PNH, 2019: 33). Ond nid yw'r cysyniad wedi'i dderbyn gan bawb eto, ac fel y nodwyd uchod, mae'n cynnwys rhywfaint o amwysedd o hyd. Cwestiwn allweddol sy'n dal heb ei ateb yw natur y trawsnewid ei hun, a faint o newid sydd ei angen i sicrhau bod y trawsnewid yn gyfiawn a hefyd yn drawsnewid go iawn. I edrych yn fanwl ar yr agweddau amwys hyn, yn gyntaf bydd angen dadansoddi'r term mewn mwy o fanylder.

Beth yw cyfiawnder?

Mae'n bwysig bod yn glir am y gwahanol fathau o gyfiawnder y gallem fod yn sôn amdanynt, h.y. beth yw ystyr y 'cyfiawn' yn 'trawsnewid cyfiawn'. Gallwn enwi tri gwahanol fath o gyfiawnder, sef cyfiawnder dosbarthiadol, gweithdrefnol ac adferol (McCauley a Heffron, 2018):

- **Cyfiawnder dosbarthiadol:** mae a wnelo hyn â sut y dosbarthir adnoddau, a phwy sy'n eu cael. Gallai hyn olygu ystyried daearyddiaeth economaidd Cymru, yn ogystal â gwella canlyniadau i bobl a grwpiau tlotach.
- **Cyfiawnder gweithdrefnol:** mater yw hyn o sicrhau y gwneir penderfyniadau mewn ffordd deg, o bosib drwy benderfynu cyfranogol neu gyd-gynhyrchu. Nid dim ond mater o sicrhau bod prosesau'n deg yw hyn, ond hefyd sicrhau bod y rhai yr effeithir arnynt yn cael cyfrannu yn y broses o benderfynu.
- **Cyfiawnder adferol:** unioni camweddau o'r gorffennol. Yng Nghymru gallai hyn olygu rhoi cymorth ychwanegol i gymunedau a ddiodefodd drawsnewid anghyfiawn yn y gorffennol, fel yng Nghymoedd y De.

Er y gellir ystyried yr agweddau hyn ar wahân, nid ydynt yn hollol ar wahân i'w gilydd. Gallent hyd yn oed ategu ei gilydd: gall ceisio cyfiawnder gweithdrefnol, er enghraifft, arwain at ganlyniadau mwy dosbarthiadol gyfiawn.

Un broblem sy'n codi, wedi inni wahaniaethu rhwng y gwahanol fathau hyn o gyfiawnder, yw nad ydym ddim agosach at weld yn eglur pa ganlyniadau neu drefniadau sy'n ddigonol i wireddu 'cyfiawnder'. Dyma fater nad oes fawr ddim consensws yn ei gylch, byth ers beirniadaeth Plato o ddemocratiaeth Athen, os nad cyn hynny. Gellid deall cyfiawnder dosbarthiadol, er enghraifft, yn nhermau cyfle cyfartal i bob aelod o gymdeithas; gallai olygu bod pob rhan o gymdeithas yn cael canlyniadau mwy cydradd (e.e. drwy leihau anghydraddoldebau cyflog); neu gallai olygu bod pob un yn derbyn cyflog cymesur â'u cyfraniad i gymdeithas.

Mae dyfarnu'n derfynol rhwng y gwahanol ystyron a roddir i 'gyfiawnder', a pha fath o gymdeithas ddylai fodoli, ymhell y tu hwnt i gwmpas y papur hwn.¹ Mae'n bwysig, serch hynny, pwysleisio y bydd union ffurf TC, ac a ydyw'n galw am newid radical, neu esblygiad mwy cymedrol, yn dibynnu felly ar benderfyniadau gwleidyddol ac athronyddol na ellir eu hosgoi, ynghylch beth mae 'cyfiawnder' yn ei olygu, a pha ofynion sydd ganddo. Mae'n hollbwysig na ddylid osgoi cynnal y trafodaethau hyn, achos er eu bod yn haniaethol ar yr wyneb, bydd y syniadau sydd gennym am gyfiawnder yn pennu pa lwybrau a gymerir, a pha fathau o newidiadau y bydd llunwyr polisi'n canolbwyntio arnynt. Gallai'r sgwrs hon gynnwys rhanddeiliaid allweddol fel gweithwyr, cymunedau, busnesau bach, defnyddwyr, a dinasyddion (Robins *et al.*, 2020).

Tanlinellir yr angen am y sgwrs hon gan y sefyllfa bresennol yng Nghymru. Mae gennym dargedau ar gyfer lleihau allyriadau, ac mae'r cyd-destun deddfwriaethol Cymreig yn hyrwyddo ffyrdd penodol o ddirnad cyfiawnder gweithdrefnol a dosbarthiadol (gweler isod). Ond ychydig iawn o esboniad sydd ynghylch beth yw ystyr ymarferol y targedau hyn, ac ynghylch beth yw cyfiawnder yng ngolwg gwahanol grwpiau y bydd penderfyniadau polisi'n effeithio arnynt. Mae'n bwysig deall sut y bydd gwahanol bobl a grwpiau'n elwa, ac mae hynny'n dibynnu ar sut y caiff cyfiawnder ei ddeall, ei fynegi a'i weithredu wrth lunio polisiâu.


¹ Mae'r ddadl ddiweddar yn y byd Saesneg wedi'i dominyddu gan gysyniad 'cyfiawnder ar ffurf tegwch', a gyflwynwyd gan John Rawls yn ei *Theory of Justice* (1999, cyhoeddwyd gyntaf 1971), sy'n ystyried cyfiawnder gweithdrefnol a dosbarthiadol ill dau mewn damcaniaeth drosfwaol. Yn fwy diweddar eto, mynegwyd y syniad o 'gydnabyddiaeth', yn yr ystyr fod unigolion yn ennill parch a chyfranogiad o fewn cymdeithas, ac yn yr ystyr fod grwpiau penodol yn gallu hawlio cyfiawnder, neu wleidyddiaeth hunaniaeth fel y'i hadnabyddir. Mae'r berthynas a'r tensiwn weithiau rhwng ailddosbarthu a chydabod wedi'i fynegi o safbwynt sosialaidd-ffeministaidd gan Nancy Fraser (1995). Mae Amartya Sen (2009) yn ystyried cyfiawnder yn nhermau galluoedd, a sut y gallai gwahanol ffurfiau ar gyfiawnder gweithdrefnol a dosbarthiadol gynyddu'r cyfleon i wahanol grwpiau ac unigolion.

Pa fath o drawsnewid?

Yn ogystal â gwahanol fathau o gyfiawnder, dylem hefyd ystyried y gwahanol ‘wydrau’ y gallem ystyried y ‘trawsnewid’ drwyddynt (gw. Ffigur 1). Mae targedau datgarboneiddio’n tueddu i hyrwyddo gostyngiadau penodol mewn allyriadau erbyn dyddiad arbennig (er enghraifft, argymhelliad y Pwyllgor Newid Hinsawdd am leihad 95% mewn allyriadau erbyn 2050 yng Nghymru). Hefyd, mae cynlluniau datgarboneiddio wedi’u datblygu fesul **sector** (er enghraifft, drwy ganolbwyntio ar y sectorau amaeth, diwydiant trwm, tai, cynhyrchu ynni, neu drafnidiaeth), ynghyd ag adroddiadau ar allyriadau. Mae dull o’r fath yn cyd-fynd â dull y Pwyllgor Newid Hinsawdd, a gynhwysodd linell amser sectorol ar gyfer lleihau allyriadau yn eu hadroddiad Sero Net (PNH, 2019).

Fodd bynnag, wrth feddwl am lywodraethiant, cyfiawnder a chyfranogiad, bydd ‘gwydrau’ eraill ar gyfer edrych ar lwybrau trawsnewid yn dod yn berthnasol. Bydd gwahanol ardaloedd **daearyddol**, a chymunedau yn yr ardaloedd hynny, yn wynebu heriau gwahanol, ac yn cael eu heffeithio’n wahanol gan ddewisiadau a wneir yn genedlaethol. Mae’r dimensiwn **amser** yr un mor bwysig i’w ystyried. Gellir rheoli rhai agweddau ar y trawsnewid nawr; fydd eraill ddim ar gael tan y dyfodol; a bydd dewis camau gweithredu penodol yn effeithio ar yr opsiynau fydd ar gael inni yn y dyfodol. Ystyrir yr agweddau hyn mewn mwy o fanylder isod.

Ffigur 1: Gwahanol agweddau trawsnewid cyfiawn



Trawsnewid cyfiawn

Math o drawsnewid

Math o gyfiawnder

Sector

Amser

**Daearyddol/
Lleoliadol**

Dosbarthiadol Gweithdrefnol Adferol

Mae Ffigur 1 yn crynhoi'r gwahanol fathau hyd yn hyn. Yn ffurfio bwa dros y rhain i gyd, ac yn pennu sut y dylid mynd o'i chwmpas hi, mae'r cwestiwn o ba fath o drawsnewid yr anelir ato. Nid yw mapiau trywydd sectoraidd a thargedau datgarboneiddio yn hyrwyddo'n benodol unrhyw ffurf arbennig ar drefniad cymdeithasol, ond mae hyn ei hun yn awgrymu'r syniad y bydd y canlyniad terfynol yn ryw fath o fersiwn gwyrddach o'r *status quo*, gan gadw trefniadau cyflogaeth, eiddo a chysylltiadau cymdeithasol fwy neu lai fel y maent hyd y bo modd. Dyma efallai safle diofyn llawer mewn llywodraeth ac yn y sector preifat. Byddai cymryd yr agwedd hon o reidrwydd yn effeithio ar gwmpas a natur Trawsnewid Cyfiawn.

Er nad yw CPCC, fel y nodwyd, mewn sefyllfa i ddyfarnu rhwng y gwahanol weledigaethau hyn, mae'n werth nodi y byddai'r weledigaeth hon o gymdeithas a hyrwyddir gan lawer sy'n eiriol dros TC (un ai'n ymhlyg neu'n benodol) yn galw am newid llawer mwy radicalaidd yn strwythur yr economi, tuag at fwy o berchnogaeth neu gyfranogiad gan weithwyr, er enghraifft, neu tuag at fodel economaidd mwy 'cylchol', neu lai dibynnol ar nwyddau traul. Efallai fod y weledigaeth hon yn fwy cyffredin yn y byd academaidd ac ymhlith ambell gorff anllywodraethol.

Gallai anghytundeb dros natur a chwmpas y newid angenrheidiol ei gwneud hi'n fwy anodd sicrhau unrhyw fath o drawsnewid, heb sôn am un 'cyfiawn'. Mae'n hollbwysig felly bod penderfynwyr, gan gynnwys llywodraethau a rhanddeiliaid allweddol, yn trafod ac yn cytuno'n fanwl ar beth y byddai targedau datgarboneiddio'n ei olygu i drefniadau economaidd-gymdeithasol – gan gynnwys ystyried holl oblygiadau targedau ac amcanion, lle nad yw'r rhain wedi'u hamlinellu'n glir, a chydlynu datblygiad mapiau trywydd i gyflawni'r newid a fwriedir. Mae hyn yn sicrhau eglurder ynghylch beth yw'r nod, ac yn caniatáu hefyd i anghytundeb o ran sylwedd gael ei ddeall ar ei delerau ei hun.

Heriau a chyfleon yng nghydestun polisi Cymru

Deddfwriaeth, pwerau a chyfleon ar gyfer newid

Mae tirwedd ddeddfwriaethol Cymru'n cynnig cyfleon penodol ar gyfer hyrwyddo Trawsnewid Cyfiawn, ac yn hybu dehongliad arbennig o ystyr posibl hynny, y gellid ei ddefnyddio i drefnu gweledigaeth glir o'r canlyniadau a ddymunir.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan uchelgais i gyflawni allyriadau sero net. Cyhoeddodd argyfwng hinsawdd yn Ebrill 2019, a mabwysiadu'r argymhelliad wedi hynny gan Bwyllgor Newid Hinsawdd (PNH) y DU am darged gostyngiad o 95% mewn allyriadau erbyn 2050 (Llywodraeth Cymru, 2019a).

Amlinellir cynigion polisi penodol yn 'Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel' (Llywodraeth Cymru, 2019b), lle ceir cynigion ar gyfer datgarboneiddio ochr yn ochr â chynigion eraill ar gyfer lliniaru effeithiau newid hinsawdd a hyrwyddo bioamrywiaeth yng nghynllun ymaddasu Llywodraeth Cymru ar gyfer y newid yn yr hinsawdd (Llywodraeth Cymru 2019c).

Yn ogystal â'r mapiau trywydd polisi hyn, mae rhagor o ddeddfwriaeth yn bodoli yng Nghymru sy'n rhoi fframwaith buddiol ar gyfer datblygu polisi a chamau gweithredu i sicrhau Trawsnewid Cyfiawn, gan gynnwys:

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)**, sy'n gosod dyletswydd cyhoeddus ar i gyrrff cyhoeddus weithredu'n unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy, a chymryd camau pellach tuag at set o nodau llesiant statudol;
- **'Cymru Wyrddach'** (Llywodraeth Cymru, 2020b), sy'n amlinellu amcanion y Llywodraeth yn y maes hwn;² a
- **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016)**, sy'n gosod dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus i gynnal a gwella bioamrywiaeth.

O ran y pwerau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru, mae amaeth a defnydd tir, cynllunio, safonau adeiladu eiddo newydd, cynhyrchu pŵer ar raddfa lai, trafniadaeth gyhoeddus a gwastraff i gyd yn gyfrifoldebau'r llywodraeth. Does gan Gymru ddim cyfrifoldeb uniongyrchol dros nifer o feysydd a fyddai'n bwysig i Drawnewid Cyfiawn, ac nid oes ganddi'r adnoddau ariannol (gan gynnwys y gallu i fenthyca) ar hyn o bryd i fuddsoddi mewn TC i unrhyw raddau arwyddocaol: mae Llywodraeth y DU yn cadw'r cyfrifoldeb am y rhan fwyaf o bolisi economaidd ac ariannol, cynhyrchu pŵer ar raddfa fawr, trosglwyddo trydan, gwresogi, safonau a thrwyddedu cerbydau, a diwydiant trwm. Felly

² Mae'r rhain yn cynnwys ymrwymadau i: Fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol a hyrwyddo gwaith teg; Gyrru twf cynaliadwy a gweithio yn erbyn newid hinsawdd; Hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb; Adeiladu cymunedau iachach ac amgylcheddau gwell; Adeiladu gwytnwch o ran cymunedau, diwylliant ac iaith; Sefydlu seilwaith modern a chysylltiedig; a Hyrwyddo a gwarchod lle Cymru yn y byd.

mae sicrhau TC, yn ogystal â'r targed gostyngiad 95% mewn allyriadau, yn ddibynol ar weithredu ar lefel y Deyrnas Unedig.³

Yn y cyd-destun hwn, bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried amrediad o ysgogiadau polisi y gall eu defnyddio i hyrwyddo TC. Gallai cyfyngiadau real, materol y cytundeb datganoli orfodi arloesedd wrth greu polisi a dyrannu adnoddau. Mae bychander cymharol maint a phoblogaeth Cymru'n golygu bod y llywodraeth yn agosach at y bobl yn naturiol, ac mae'n haws dod ag amrediad ehangach o weithredwyr at ei gilydd i weithio ar rywbeth. Mae ymchwil blaenorol gan CPCC wedi nodi bod grym cydgynnull neu 'nodaedd' Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan bwysig yn y gorffennol o weithredu deddfwriaethol llwyddiannus (Connell, 2019a), a dylid manteisio ar hyn i hwyluso TC.⁴

Mae gan y sector cyhoeddus yng Nghymru rym prynu sylweddol – mae gwariant caffael cyhoeddus yn dod i oddeutu £6bn y flwyddyn (Swyddfa Archwilio Cymru, 2017). Mae polisi Llywodraeth Cymru wedi golygu hefyd fod gan ystod eang o fusnesau a chyrff eraill berthynas yn barod gyda'r Llywodraeth, boed drwy gyllid grant, cefnogaeth busnes, neu berthynas waith arall, y gellid manteisio arni – er y gallai gosod amodau ynghlwm wrth gefnogaeth ariannol fod yn wrthgynhyrchiol, gan arwain at ymarferion ticio blychau, neu wrthsafiad gweithredol.

Nododd cyfranogwyr yn ein cyfarfodydd bwrdd crwn fod y fframweithiau polisi sydd wedi'u sefydlu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn arbennig o ffafriol. Yn ogystal â sefydlu egwyddor datblygu cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig yn gyfreithiol, mae'r Ddeddf yn rhoi cyfle i fframio Trawsnewid Cyfiawn trwy fframweithiau deddfwriaethol sefydledig (saith nod llesiant) yn ogystal â thrwy normau gweithdrefnol sydd wedi'u llunio drwy'r pum ffordd o weithio.⁵ Â rhai rhanddeiliaid cyn belled â dadlau bod y Ddeddf yn gosod rheidrydd cyfreithiol i gael TC. Byddai TC yn hyn o beth yn rhoi blaenoriaeth i ddulliau cyfranogol a chynhwysol o wneud penderfyniadau, ynghyd ag aiddosbarthu helaeth i gymunedau a grwpiau difreintiedig. Ar ei helaethaf, gellir dehongli bod y Ddeddf yn galw am setliad gwleidyddol ac economaidd newydd, sy'n rhoi blaenoriaeth i ddatblygu cynaliadwy.

³ I gefnogi hyn, mae Llywodraeth y DU yn ddiweddar wedi gosod targed interim o leihad 68% mewn allyriadau erbyn 2030, ynghyd â 'chynllun deg pwynt' i gyflymu proses datgarboneiddio (Harrabin, 2020; Swyddfa Prif Weinidog y DU, 2020).

⁴ Mae 'nodaedd' yn air am y 'grym anffurfiol a ddaw o fod yng nghanol rhwydweithiau' (Connell, 2019a). Mae'n ffurf ar rym cydgynnull y mae Llywodraeth Cymru mewn safle arbennig o dda i'w harfer.

⁵ Dyma saith nod llesiant: 'Cymru gyfrifol ar lefel fyd-eang; Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru fwy cyfartal; Cymru iachach; Cymru o gymunedau cydlynus; a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Dyma'r pum ffordd o weithio: 'Hirdymor; Integreiddio [â nodau'r Ddeddf]; Cynnwys; Cydweithio; Atal [problemau a allai rwystro cyflawni'r nodau]' (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, 2020).

Felly gallai gweithredu TC yng Nghymru ffurfio rhan o gyflwyniad cynyddol y Ddeddf, ac ymwybyddiaeth ohoni, yng ngwasanaeth cyhoeddus Cymru.

Gellir gweld agweddau ar hyn yn barod mewn amryfal ymgeision i arloesi wrth lywodraethu o fewn gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Mae datganiadau ardal, sy'n ofynnol dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn crynhoi cyflwr adnoddau naturiol ac ecosystemau ar draws saith rhanbarth ddiffiniedig o Gymru (chwech ar dir ac un ar y môr), ac yn amlinellu sut yr ymatebir i heriau. Nod y rhain yw cysylltu fframweithiau polisi cenedlaethol gyda blaenoriaethau a phryderon lleol, ac maent wedi'u creu gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar y cyd ag asiantaethau, awdurdodau a chynrychiolwyr lleol. Mae hyn yn rhoi elfen o adborth ar ymarferoldeb a gweithrediad targedau a osodir o'r brig i lawr, ac yn caniatáu i gynrychiolwyr ardaloedd lleol fwydo i mewn i brosesau cyffredinol. Cyhoeddwyd y set gyntaf o ddatganiadau ardal yn Ebrill 2020, ac felly rhaid aros i weld beth fydd eu heffaith ar lunio penderfyniadau. Ond teimlai rhai cyfranogwyr yn ein sesiynau bwrdd crwn fod canolbwyntio ar ymgynghori â chyrrff anlywodraethol, asiantau lleol ac awdurdodau lleol yn hytrach nag aelodau'r cyhoedd yn lleihau potensial cyfranogol yr ymarferion hyn.

Un fantais o ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i weithredu TC fyddai'r potensial i sicrhau fod datgarboneiddio a chyfiawnder yn cael eu gweld fel materion gwirioneddol trawsbynciol, yn hytrach na'u bod wedi'u cyfyngu i un adran neu faes. Nid yw gwneud penderfyniadau ar wahân mewn 'seilos' sy'n bodoli eisoes yn debygol o allu wynebu natur yr her, a dod â'r ateb sydd ei angen, sut bynnag y dehonglir Trawsnewid Cyfiawn, a hynny oherwydd bod natur y nodau llesiant yn gofyn am gydlynw adnoddau a blaenoriaethau presennol, ac mae'r materion eang (fel cynyddu cyfleon neu hyrwyddo cymunedau) yn ymestyn dros sawl portffolio.

Mae rhwystrau'n bodoli i weithrediad y Ddeddf Llesiant, gan gynnwys trefniadau llywodraethu cymhleth, a gofynion adrodd gor-feichus, yn ogystal â'r problemau newid diwylliant mwy nodweddiadol (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, 2020). At hynny, nid yw'n glir ar hyn o bryd pa bwerau gorfodi cyfreithiol sydd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae gweithio trawsbynciol yn ehangach yn gofyn am ymrwymiad parhaus ar draws amrediad o gyrrff, a gall fod yn anodd ei weithredu. Gall hyn fod yn arbennig o wir yn achos datgarboneiddio, lle nad oes 'defnyddiwr' amlwg, ac felly nad oes cleient uniongyrchol i'w ateb (Connell *et al.*, 2019b: 16).

Er mai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fydd yn teyrnasu dros hyn i gyd, bydd gweithio trawsbynciol a chydweithio rhwng Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a chyrrff a noddir gan Lywodraeth Cymru yn hanfodol i fynd i'r afael â natur amlwynebog a chymhleth datgarboneiddio. Er enghraifft, rhaid i benderfyniadau ynghylch ariannu diwydiant carbon-ddwys gael eu gwneud gyda strategaeth

ddatgarboneiddio lefel uchel mewn meddwl, yn ogystal â phryderon economaidd lleol.⁶ Yn yr un modd, rhaid i dimau unigol allu gwneud penderfyniadau o fewn y strategaeth honno, heb orfod gweithio eu ffordd drwy brosesau biwrocraidd cymhleth a llafurus.

Mae cyfleon i symud y cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau, a rhyw elfen o reolaeth, oddi wrth gyrff ffurfiol ac i grwpiau lleol. Gallai prosiectau peilot gan gynnwys Project Skyline⁷ ganiatáu i gymunedau lleol ymwneud â rheoli adnoddau naturiol, a allai ganiatáu ar gyfer hyrwyddo nwyddau amgylcheddol, tra'n darparu cyflogaeth gynaliadwy leol ar yr un pryd. Project Skyline yw'r enghraifft uchaf ei broffil, ac mae wedi derbyn cyllid yn ddiweddar (Dickins, 2020), ond mae cynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol wedi dweud wrth CPEC fod llawer o brosiectau cymunedol eraill ar gael y gellid eu hysgogi tuag at Drawsnewid Cyfiawn.

Byddai rhoi i gymunedau a chyrrff lleol y gallu i wneud penderfyniadau am eu dyfodol yn adfer ymdeimlad o gyfryngiad a dewis, ac yn ei gwneud yn fwy tebygol y gwnânt gefnogi ymdrechion datgarboneiddio lle cânt effaith uniongyrchol ar ardaloedd lleol. Bydd hyn hefyd yn helpu hybu newid ymddygiad, a fydd yn gorfod bod yn rhan sylweddol (60%, yn ôl y Pwyllgor Newid Hinsawdd [2019]) o unrhyw raglen ddatgarboneiddio.

Heriau ac ystyriaethau i ddatgarboneiddio yng Nghymru

Mae angen gosod Trawsnewid Cyfiawn i mewn i gyd-destun anodd datgarboneiddio yng Nghymru. Er gwaethaf polisi a deddfwriaeth ffafriol, a llywodraeth sy'n barod i weithredu, mae allyriadau carbon yng Nghymru wedi disgyn dim ond cyn belled ag y mae allyriadau cynhyrchu pŵer wedi disgyn. Mae prosesau amaeth a diwydiannol ill dau'n ffynhonnell allyriadau gyfrannol fwy yng Nghymru o gymharu â gweddill y Deyrnas Unedig (Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol, 2019),⁸ sy'n adlewyrchu natur wledig Cymru, ac amlygrwydd cymharol diwydiant trwm (fel y gweithfeydd dur yng Llanwern a Phort Talbot). Mae diwydiant trwm ac amaethyddiaeth

⁶ Cymhlethir hyn ymhellach gan y risg o allyriadau neu effeithiau amgylcheddol gan contractwyr allanol.

⁷ Rhoddodd Project Skyline gyfle i drigolion lleol rhai cymunedau yng nghymoedd y De i benderfynu beth i'w wneud â thir oedd yn eiddo cyhoeddus.

⁸ Dyma brif ffynonellau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru: Cyflenwi ynni (34%), Busnes (21%), Trafnidiaeth (15%), Amaeth (13%), Preswyl (9%), Prosesau diwydiannol (5%), Rheoli gwastraff (3%), a'r sector cyhoeddus (<1%) (Stats Cymru, 2019).

ill dau'n anodd eu datgarboneiddio, ac, ynghyd â'r prinder cyfleon i storio carbon yng Nghymru, maent yn ffactorau sy'n arafu'r broses o ddatgarboneiddio (Pwyllgor Newid Hinsawdd, 2019).

Mae rhannau mawr o Gymru'n dal i ddiodef ers trawsnewidiadau economaidd yn y gorffennol, yn enwedig colli'r gweithfeydd glo a llawer o ddiwydiannau mawr, a ddaeth i anterth yn y 1980au. At hynny, mae diwydiant ac amaeth yn sectorau ac iddynt arwyddocâd cymdeithasol a diwylliannol yng Nghymru. Wrth i'r genedl geisio trawsnewid i allyriadau sero net, bydd angen ystyried sut i reoli hyn mewn modd sy'n cydnabod ac yn gwneud rhywbeth am yr effeithiau a gaiff hyn ar gymunedau.

I roi enghraifft o'r anawsterau sydd ynghlwm wrth ddatgarboneiddio sector penodol, neu mewn ardaloedd daearyddol penodol – mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi cynigion ar gyfer cefnogi ffermio a rheoli tir yng Nghymru trwy ei Chynllun Ffermio Cynaliadwy (gweler Llywodraeth Cymru, 2020a). Byddai hyn yn rhoi cymhellion i ffermwyr geisio sicrhau canlyniadau amgylcheddol, ac yn rhoi buddsoddiad cyfalaf iddynt, cyngor a chefnogaeth busnes, a datblygu sgiliau; ond ni fyddai'n rhoi cymorthdaliadau ar gyfer cynhyrchu bwyd. Fodd bynnag, mae gwrthwynebiad i newid, a mynegir y farn o fewn cymunedau ffermio fod arallgyfeirio'n cael ei weld yn ail-orau i gynhyrchu bwyd (Ymchwil y Senedd, 2019). Mae pryder arbennig y byddai disodli tir ffermio cynhyrchiol â thir 'anghynhyrchiol' yn lleihau'r cyfanswm refeniw a throsiant, a allai gael effeithiau economaidd ar lefel ehangach na ffermwyr unigol (er enghraifft, drwy leihau refeniw i wasanaethau ffermio fel milfeddygon). Mae caredigion yr iaith Gymraeg yn dadlau hefyd fod unrhyw fygythiad i hyfywdra cymunedau ffermio yn y gorllewin a'r gogledd, sef prif gadarnleoedd y Gymraeg, yn fygythiad hefyd i'r iaith (Scourfield, 2020). Er nad yw'r heriau hyn yn rhai amhosib eu goresgyn, i wneud hynny bydd angen llunio polisi mewn modd gofalus, cyfranogol a phenodol i leoliad, a hynny gyda nod eglur a phenodol a gytunir gan bawb.

Yn bwysig, wrth gynllunio ar gyfer TC bydd angen ystyried 'dibyniaethau llwybr' a grëir wrth gymryd camau penodol ar bwyntiau penodol. Bydd unrhyw gamau a gymerir nawr yn effeithio nid yn unig ar ba gamau y gellir eu cymryd yn y dyfodol, ond hefyd ar y ffrâm amser y bydd angen cymryd y camau hyn ynddo. Er y sylweddolir bod digwyddiadau annisgwyl a risgiau yn gallu bodoli, y gwelwyd eu heffaith eleni yn fwy na'r cyffredin, bydd angen cynllunio a gweithredu polisïau'n ofalus er mwyn hwyluso'r gwaith o wneud penderfyniadau yn y dyfodol. Golyga hyn y bydd angen gosod y sylfeini yn gynharach ar gyfer ymyriadau'r dyfodol, yn enwedig mewn meysydd cymhleth fel datgarboneiddio diwydiant trwm.

Effaith pandemig y Coronafeirws

Er iddo achosi cryn drafferth economaidd, gallai agweddau ar bandemig y Coronafeirws fod yn addysgiadol wrth gynllunio ar gyfer Trawsnewid Cyfiawn. Gellir gweld rhai pwyntiau cyffelyb rhwng yr argyfwng cyfredol a'r ymateb sydd ei angen i fynd i'r afael â newid hinsawdd, pwyntiau a allai fod yn fuddiol o ran cynyddu cefnogaeth i 'adferiad gwyrdd'. Yn eu plith mae'r ymdeimlad bod llywodraethau wedi dangos diffyg meddwl a chynllunio hirdymor; parodwydd i dderbyn ymyriad ar raddfa fawr gan y wladwriaeth/sector cyhoeddus; ac adfywiad yn y diddordeb mewn arbenigedd a gwyddoniaeth, a gwerthfawrogiad iddynt. O edrych ar y polau piniwn sy'n dangos fod dau o bob tri ym Mhrydain yn credu bod newid hinsawdd lawn mor ddifrifol â'r Coronafeirws, a bod y mwyafrif a ymatebodd eisiau gweld blaenoriaeth i'r hinsawdd/amgylchedd mewn unrhyw adferiad economaidd (Beaver, 2020), mae pandemig y Coronafeirws yn cynnig cyfle allweddol i ddefnyddio'r pryder cyhoeddus cynyddol am newid hinsawdd i annog Trawsnewid Cyfiawn yng Nghymru a thu hwnt.

Yn y cyd-destun hwn, gellir fframio galwad am weithredu ar newid hinsawdd yn nhermau gweithredu i osgoi argyfyngau yn y dyfodol, dangos parodwydd, a hyrwyddo cydraddoldeb. I hyn fod yn llwyddiannus, mae angen cynnig atebion; nid digon yw galw am weithredu. Bydd yn bwysig i'r Llywodraeth fod yn barod i fynegi sut y mae'n bwriadu gweithredu, pa 'atebion' y bydd yn eu ceisio, a pha gyfraniad y gall y cyhoedd ei wneud.

Mae'r cyfyngiadau a osodwyd yn sgil pandemig y Coronafeirws wedi'u cysylltu â nifer o newidiadau ymddygiad cadarnhaol sy'n gydnaws ag ymdrechion datgarboneiddio, gan gynnwys: mwy o bobl yn siopa'n lleol; mwy o werthfawrogiad o fannau gwyrdd ymhlith y cyhoedd; a llai o allyriadau teithio wrth i fwyfwy o bobl weithio gartref. Er nad yw'n eglur i ba raddau y bydd y newidiadau a welwyd yn ystod y pandemig yn parhau yn y tymor hir, mae ymchwil yn awgrymu y bydd ymdrechion i sefydlogi newidiadau ymddygiad cadarnhaol yn hollbwysig i gyflawni datgarboneiddio. Awgrymodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd fod dros 60% o'r newidiadau angenrheidiol i'r Deyrnas Unedig gyrraedd allyriadau sero net yn gofyn am newidiadau yn ymddygiad cymdeithas ac unigolion; fydd hi ddim yn ddigon cyflwyno technolegau neu danwyddau carbon isel heb newid ymddygiad pobl (PNH, 2019).

Mae rhai o'r newidiadau cadarnhaol hyn eisoes yn cael eu gwneud yn barhaol, gan gynnwys mwy o ddarpariaeth ar gyfer 'teithio gweithredol' fel seiclo yng Nghaerdydd, a'r syniad o weithio gartref fel nodwedd barhaol o'r economi; ac mae llywodraethau (o leiaf yn eu geiriau) yn rhoi blaenoriaeth i 'adferiad gwyrdd'. Gallai Llywodraeth Cymru adeiladu ar y mesurau hyn drwy fabwysiadu dulliau cynllunio sy'n ymgorffori dyluniad natur-ganolog i gynyddu mynediad at fannau gwyrdd. Gellid targedu cefnogaeth i'r stryd fawr leol i sicrhau bod y cymysgedd iawn o wasanaethau a siopau ar gael i

sefydlu siopa lleol fel y norm. Gellid darparu opsiynau gweithfannau lleol a dosbarthedig mewn trefi a phentrefi i ganiatáu gweithio ‘yn agosach i gartref’ yn hytrach na gweithio ‘yn y swyddfa’ neu ‘gartref’, a hynny’n helpu cynnal y lleihad mewn tagfeydd traffig ar yr oriau brig sydd wedi digwydd o ganlyniad i’r cynnydd sylweddol mewn gweithio gartref yn ystod cyfnodau cynnar y pandemig.

Fodd bynnag, tra bod sioc economaidd ddifrifol y Coronafeirws wedi achosi i adnoddau sylweddol gael eu dyrannu i adferiad, mae’r Deyrnas Unedig yn debyg o wynebu dirwasgiad sylweddol, ac nid yw’n glir i ba raddau y cefnogir y newidiadau cadarnhaol hyn yn ariannol nac i ba raddau y gallant barhau yn y tymor hir.

Crynodeb: Symud tuag at Drawnewid Cyfiawn

Mae cysyniad Trawnewid Cyfiawn yn bwysig o ran cysylltu heriau datgarboneiddio â chydabyddiaeth y bydd datgarboneiddio’r economi yn achosi effeithiau economaidd a chymdeithasol, ac y gallai rhai o’r effeithiau hynny waethygu anghyfiawnderau sy’n bodoli, neu greu rhai newydd.

Mae’n anodd weithiau deall yn union beth a olygir wrth TC, serch hynny; yn aml bydd y sefyllfaoedd a geisir, yn ogystal â natur a maint y newid, heb eu hegluro’n dda iawn. Cam cyntaf hanfodol tuag at unrhyw weithredu TC yw trafod, deall a mynegi yn glir beth rydym yn trawsnewid tuag ato, ac ym mha ffyrdd y mae’n wahanol i’r trefniant presennol. I weithredu TC bydd angen deall hefyd gymhlethdodau datgarboneiddio; modelu effeithiau tebygol; a sylweddoli y gallai cyfnewidiadau polisi a dibyniaethau llwybr ei gwneud hi’n llawer anoddach gwneud penderfyniad.

Mae Cymru’n wynebu heriau arbennig gyda datgarboneiddio, ac mae ein llywodraeth yn gyfyngedig o ran grym ac adnoddau ariannol. Ar yr un pryd, mae Cymru mewn lle da i weithredu TC, gydag amgylchedd deddfwriaethol ffafriol, a’r manteision posibl a ddaw drwy lywodraethu gwlad fach. Mae yma gyfleon i gynnull grwpiau rhanddeiliaid a chydweithio i wynebu heriau; ac i adeiladu ar waddol pandemig y Coronafeirws i ‘ailgodi’n gryfach’.

Ar lefel ehangach, gallai Cymru ystyried ffyrdd y gellir cyflawni TC ar lawr gwlad, yn absenoldeb cefnogaeth ariannol sylweddol gan y llywodraeth, gyda chymorth grwpiau cymunedol a busnesau lleol. Gellid cael ysbrydoliaeth oddi wrth fentrau sy’n bodoli ar hyn o bryd i gyflawni agenda Gwaith Teg neu hybu’r Economi Sylfaenol.

Gellid defnyddio strwythurau rhanbarthol sy'n bodoli eisoes, ynghyd â chonsortia lleol ffurfiol neu anffurfiol, i drafod sut y gallai cyrff lleol (gan gynnwys busnesau) rannu adnoddau a chynllunio gyda'i gilydd. Gallai hyn ffurfio rhan o gyflwyniad parhaus ehangach Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac ymgeision i wella prosesau penderfynu cydweithredol a thrawsbynciol.

I roi wyneb mwy cadarn a manwl ar y mathau o benderfyniad y bydd eu hangen, ac i amlygu rhwystrau ymarferol a allai godi, gellid dewis un neu ddau faes polisi ar gyfer astudiaeth drylwyr bellach. Dylid dewis y meysydd polisi hyn o'r tu allan i gwmpas 'traddodiadol' datgarboneiddio, i sicrhau'r cyfleon gorau ar gyfer gweithio trawsbynciol, ond dylent fod o fewn cwmpas Trawsnewid Cyfiawn. Dylai'r astudiaeth geisio canfod y ffyrdd penodol y gellid defnyddio'r maes polisi, neu benderfyniad polisi, i arwain at TC; sut y gellir ysgogi cyfranogwyr a rhanddeiliaid i'r perwyl hwnnw; a pha adnoddau neu ffactorau ychwanegol y bydd eu hangen i gyflawni TC yn llwyddiannus. Dylid canolbwyntio ar weithredu, er mwyn osgoi'r argraff mai rhestr o 'ddymuniadau' yw TC, heb fawr ddim perthnasedd ymarferol.

Mae Trawsnewid Cyfiawn yn her i'r syniad y gellir cyflawni datgarboneiddio heb ystyried materion economaidd a chymdeithasol ehangach, ond mae hefyd yn her cysyniadol ac ymarferol ynddo'i hun. Bydd ateb yr her yn gofyn am eglurder strategol, ynghyd â gweithredu cydlynol ar lawr gwlad, ond mae'n cynnig y cyfle i gydgyssylltu meysydd polisi a fuasai fel arall ar wahân, a mynd i'r afael â rhai o heriau mawr yr 21ain ganrif.

Cyfeiriadau

Beaver, K. (2020). **How do Great Britain and the world view climate change and Covid-19?** Ipsos-MORI. Adalwyd o:

https://www.ipsos.com/sites/default/files/ct/news/documents/2020-4/earth_day_slide_deck.pdf

Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (PNH). (2019). **Net Zero: the UK's contribution to stopping global warming.** Adalwyd o: <https://www.theccc.org.uk/publication/net-zero-the-uks-contribution-to-stopping-global-warming/>

Connell, A. (2019a). **Pwerau ac Ysgogiadau Polisi – Beth sy'n gweithio i gyflawni polisiau Llywodraeth Cymru?** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Adalwyd o <https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/pwerau-ac-ysgogiadau-polisi-beth-syn-gweithio-i-gyflawni-polisiau-llywodraeth-cymru/>

Connell, A., Quarmby, S. a Martin, S. (2019b). **Gwella gwaith trawsbynciol: Adolygiad o dystiolaeth a seminar gydag arbenigwyr.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Adalwyd o: <https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/gwella-gwaith-trawsbynciol/>

Dickins, S. (2020). **Rhondda ex-mining village looks to forest for its future.** BBC News, 20 Awst 2020. Adalwyd o: <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-53834679>

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. (2020). **Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020.** Adalwyd o: <https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2020/05/FInal-Welsh-FG-Report.pdf>

Fraser, N. (1995). **From Redistribution to Recognition? Dilemmas of justice in a 'post-socialist' age.** *New Left Review* 1:212, tt. 68-93.

Harrabin, R. (2020). **Climate change: UK aim of 68% emissions cut a 'colossal challenge'.** BBC News, 4 Rhagfyr 2020. Adalwyd o: <https://www.bbc.co.uk/news/science-environment-55179008>

McCauley, D. a Heffron, R. (2018). **Just transition: Integrating climate, energy and environmental justice.** *Energy Policy* 119, tt. 1-7. Adalwyd o: <https://doi.org/10.1016/j.enpol.2018.04.014>

Price, J. (2019). **Pam 'Trawsnewid Cyfiawn'? Datgarboneiddio a chyfiawnder economaidd.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Adalwyd o: <https://www.wcpp.org.uk/cy/sylwebaeth/pam-trawsnewid-cyfiawn-datgarboneiddio-a-chyfiawnder-economaidd/>

National Atmospheric Emissions Inventory (2019). **Greenhouse Gas Inventories for England, Scotland, Wales & Northern Ireland: 1990-2017.** Adalwyd o: https://naei.beis.gov.uk/reports/reports?report_id=991

Swyddfa Prif Weinidog y DU. (2020). **PM outlines his Ten Point Plan for a Green Industrial Revolution for 250,000 jobs.** Datganiad i'r Wasg. Llywodraeth y DU. Adalwyd o: <https://www.gov.uk/government/news/pm-outlines-his-ten-point-plan-for-a-green-industrial-revolution-for-250000-jobs>

Rawls, J. (1999). **A Theory of Justice: Revised Edition.** Rhydychen: Oxford University Press.

Sen, A. (2009). **The Idea of Justice.** Llundain: Penguin Books Ltd.

Ymchwil y Senedd. (2019). **Arallgyfeirio a gwytnwch ffermio yng Nghymru: rhagolygon ar ôl Brexit.** Adalwyd o: <https://senedd.cymru/media/bkxjyknz/19-079-cy-web.pdf>

Scourfield, A. (2020). **Tree planting: National Trust plan prompts farm fears.** BBC News, 21 Ionawr 2020. Adalwyd o: <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-51182034>

Snell, D. (2018). **‘Just transition’? Conceptual challenges meet stark reality in a ‘transitioning’ coal region in Australia.** *Globalizations* 15:4, tt.550-564. DOI: 10.1080/14747731.2018.1454679

Stats Cymru. (2019). **Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr yn ôl Blwyddyn.** Llywodraeth Cymru. <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Environment-and-Countryside/Greenhouse-Gas/emissionsofgreenhousegases-by-year>

Robins, N., Tickell, S., Irwin, W. a Sudmant, A. (2020). **Financing climate action with positive social impact: How banking can support a just transition in the UK.** Adalwyd o: <https://www.lse.ac.uk/granthaminstitute/publication/financing-climate-action-with-positive-social-impact-how-banking-can-support-a-just-transition-in-the-uk/>

Swyddfa Archwilio Cymru. (2017). **Caffael Cyhoeddus yng Nghymru.** Adalwyd o: [\[DOLEN DDIM YN GWEITHIO\]](#)

Llywodraeth Cymru. (2019a). **Cymru yn derbyn targed y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd o weld lleihad o 95% mewn allyriadau.** Datganiad i'r Wasg. Adalwyd o: <https://llyw.cymru/cymru-yn-derbyn-targed-y-pwyllgor-ar-newid-hinsawdd-o-weld-lleihad-o-95-mewn-allyriadau>

Llywodraeth Cymru. (2019b). **Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel.** Adalwyd o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/cynllun-cyflawni-carbon-isel-cy_0.pdf

Llywodraeth Cymru. (2019c). **Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd: Cynllun ar gyfer addasu i'r newid yn yr hinsawdd.** Adalwyd o: https://llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-cymru-syn-effro-ir-hinsawdd?_ga=2.71075154.376706141.1610710753-1669226121.1568635081

Llywodraeth Cymru. (2020a). **Ffermio Cynaliadwy a'n Tir.** Adalwyd o: <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-07/ein-ymateb-ffermio-cynaliadwy-an-tir.pdf>

Llywodraeth Cymru. (2020b). **Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2019: Cymru fwy llewyrchus, cyfartal a gwyrdd**. Adalwyd o:
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/adroddiad-blynyddol-llywodraeth-cymru-2019.pdf>

Yr Awduron

Dr Jack Price sy'n Swyddog Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Manon Roberts sy'n Gydymaith Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Dan Bristow sy'n Gyfarwyddwr Polisi ac Ymarfer yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Dr Jack Price

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

+44 (0) 29 2251 0871

info@wcpp.org.uk

OGL Mae'r adroddiad wedi'i drwyddedu dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored



**Wales Centre
for Public Policy**
**Canolfan Polisi
Cyhoeddus Cymru**